# LEWIS, MATHEW (1817? - 1860), gweinidog Annibynnol ac ysgrifennwr

**Enw:** Mathew Lewis
**Dyddiad geni:** 1817?
**Dyddiad marw:** 1860
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog Annibynnol ac ysgrifennwr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Griffith Milwyn Griffiths

Ganwyd yn Llanidloes. Gwehydd oedd wrth ei alwedigaeth, ond cymhellwyd ef i fyned i'r weinidogaeth. Bu am rai blynyddoedd ym Môn fel ysgolfeistr a gweinidog ac yna fel gweinidog ym Mangor a Threffynnon. Ymddiswyddodd o'r weinidogaeth, ac aeth i Lerpwl fel is-olygydd *Yr Amserau*. Ymhlith ei gyfraniadau i'r papur hwn yr oedd dwy chwedl, ' Rhydderch Prydderch ' a ' Y Ddwy Lili.' Ysgrifennodd hefyd erthyglau i'r *Traethodydd*. Ymadawodd â Lerpwl, a bu'n weinidog eglwys Annibynnol yn y Dref Newydd, Sir Drefaldwyn. Ymddiswyddodd eilwaith o'r weinidogaeth, ac ymunodd â'r fyddin. Bu farw yn China yn 1860, 'yn 43 oed.'

## Awdur

**Griffith Milwyn Griffiths**

## Ffynonellau


T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

*Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru* (1870)

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

H. Blackwell, NLW MS 9264A: A Dictionary of Welsh Biography


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733889


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/



Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu